OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1287 (Cy.164)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Gwerthwyr Tybaco Arbenigol) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Mai 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 6(A1), 7B(3) a 19(2) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002(**1**), a chan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Gwerthwyr Tybaco Arbenigol) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2015.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Hysbysebu mewn mangreoedd gwerthwyr tybaco arbenigol

**2.**—(1) Ni chyflawnir unrhyw drosedd o dan adran 2 o'r Ddeddf (gwaharddiad ar hysbysebu tybaco) os yw'r hysbyseb dybaco—

(a) mewn mangre gwerthwr tybaco arbenigol(**3**);

(b) yn un nad yw ar gyfer sigaréts neu dybaco rholio â llaw; ac

(c) yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir yn y paragraffau a ganlyn.

(2) Ni chaniateir i hysbyseb dybaco fod yn weladwy o'r tu allan i fangre'r gwerthwr tybaco arbenigol.

(**1**) 2002 p.36. Mewnosodwyd adran 6(A1) ac adran 7B(3) gan Ddeddf Iechyd 2009 (p.21), adrannau 20 a 21. Gweinidogion Cymru yw'r "appropriate Minister" o ran Cymru o dan adran 21(1) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 ("y Ddeddf"), a amnewidiwyd gan adran 24 o Ddeddf Iechyd 2009, a pharagraffau 2 a 12 o Atodlen 4 iddi.

(**2**) 1993 p.38.

(**3**) *Gweler* adran 6(2) a (3) o'r Ddeddf i gael diffiniad o "specialist tobacconist".

(3) Rhaid i bob hysbyseb gynnwys adran ("yr adran wybodaeth") ("*the information area*") lle yr arddangosir ynddi—

(a) rhybudd iechyd fel a bennir ym mharagraff (4); a

(b) yr wybodaeth iechyd a ganlyn—

"Llinell Gymorth i Ysmygwyr yng Nghymru

0800 169 0 169

Smokers' Helpline Wales".

(4) Rhaid i'r rhybudd iechyd ddatgan—

(a) mewn achos lle mae hanner neu ragor o arwynebedd hysbyseb ac eithrio'r adran wybodaeth ("yr adran hysbysebu") ("the advertisement area") yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hysbysebu cynhyrchion tybaco y bwriedir iddynt gael eu hysmygu—

""Mae ysmygu yn lladd / Smoking kills" neu

"Mae ysmygu yn achosi niwed difrifol i chi ac eraill o'ch cwmpas / Smoking seriously harms you and others around you""; a

(b) ym mhob achos arall—

"Gall cynhyrchion tybaco achosi niwed difrifol i'ch iechyd a gallwch fynd yn gaeth iddynt / Tobacco products can seriously damage your health and are addictive".

(5) Rhaid i'r adran wybodaeth o dan baragraff (3)—

(a) mewn achos lle y mae cyfanswm arwynebedd yr hysbyseb yn fwy na 75 o gentimetrau sgwâr, fod o leiaf 22.5 o gentimetrau sgwâr; a

(b) mewn unrhyw achos arall, beidio â bod yn llai na 30% o gyfanswm arwynebedd yr hysbyseb,

ac, at ddibenion y paragraff hwn, ystyr cyfanswm arwynebedd yr hysbyseb yw'r adran hysbysebu a'r adran wybodaeth.

(6) Rhaid i'r rhybudd iechyd a'r wybodaeth iechyd y mae'n ofynnol iddynt gael eu harddangos o dan baragraff (3)—

(a) bod yn annileadwy;

(b) bod yn ddarllenadwy;

(c) bod wedi eu printio mewn teip Helvetica du trwm ar gefndir gwyn;

(d) bod mewn maint ffont sy'n gyson drwy'r testun sy'n sicrhau bod y testun yn llenwi'r gyfran fwyaf posibl o'r adran wybodaeth;

(e) bod mewn teip â phriflythrennau a llythrennau bach fel y'u defnyddiwyd yn yr wybodaeth iechyd ym mharagraff (3) neu, yn ôl y digwydd, yn y rhybudd iechyd o dan sylw ym mharagraff (4);

(f) bod wedi eu canoli yn yr adran lle y mae'n ofynnol i'r testun gael ei brintio ynddi;

(g) cael eu harddangos yn gyfochrog â'r llawr;

(h) bod wedi eu hamgylchynu ag ymyl ddu y tu allan i'r adran wybodaeth y mae'n rhaid iddi beidio â bod yn llai na 3 milimetr a dim mwy na 4 milimetr ei lled, a honno'n ymyl nad yw'n ymyrryd â thestun y rhybudd na'r wybodaeth; ac

(i) bod wedi eu printio ar yr hysbyseb yn y fath fodd fel na ellir eu tynnu oddi arni neu wedi eu gosod ar yr hysbyseb drwy gyfrwng sticer na ellir ei dynnu oddi yno.

**Arddangos cynhyrchion tybaco mewn mangreoedd gwerthwyr tybaco arbenigol**

**3.** Ni chyflawnir unrhyw drosedd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco)(**4**) drwy arddangos cynhyrchion tybaco os yw'r arddangosiad—

(a) mewn mangre gwerthwr tybaco arbenigol; a

(b) yn un nad yw'n weladwy o'r tu allan i fangre'r gwerthwr tybaco arbenigol.

**Dirymu**

**4.** Mae Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Gwerthwyr Tybaco Arbenigol) 2004(**5**) wedi eu dirymu o ran Cymru.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2012

(**4**) Mewnosodwyd adran 7A o'r Ddeddf gan Ddeddf Iechyd 2009 (p.21), adran 21.
(**5**) O.S. 2004/1277.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer esemptiadau mewn perthynas â gwerthwyr tybaco arbenigol rhag y gwaharddiad ar hysbysebion tybaco a osodwyd gan adran 2 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 ("y Ddeddf") a'r gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco a osodwyd gan adran 7A o'r Ddeddf. Siopau yw gwerthwyr tybaco arbenigol sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco drwy fanwerthu ac y mae dros hanner o'u gwerthiannau yn deillio o werthiant sigârs, snisin, tybaco pib ac ategolion ysmygu.

Mae rheoliad 2 yn caniatáu ar gyfer cyhoeddi hysbysebion ar gyfer cynhyrchion tybaco, nad ydynt yn sigaréts neu dybaco rholio â llaw, mewn mangreoedd gwerthwyr tybaco arbenigol ar yr amod nad yw'r hysbyseb yn weladwy o'r tu allan i'r fangre a'i bod yn cynnwys y rhybudd iechyd a'r wybodaeth iechyd ddwyieithog sy'n ofynnol ar y ffurf ofynnol. Mae'r gofyniad am rybudd iechyd a gwybodaeth iechyd ddwyieithog yn gymwys i'r hysbyseb ac nid i'r cynhyrchion tybaco eu hunain.

Mae rheoliad 3 yn caniatáu ar gyfer arddangos cynhyrchion tybaco, gan gynnwys sigaréts a thybaco rholio â llaw, mewn mangreoedd gwerthwyr tybaco arbenigol os nad yw'r cynhyrchion tybaco yn weladwy o'r tu allan i'r mangreoedd.

Mae Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Gwerthwyr Tybaco Arbenigol) 2004 wedi eu dirymu o ran Cymru gan reoliad 4.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Gangen Cwrs Bywyd, yr Is-adran Gwella Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.